

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWIYD YN YSGOL PANT PASTYNOG AR NOS LUN 23AIN O CHWEFROR 2015 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Gwennan Hughes, Elfed Williams a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Jill Evans, Falmai Evans, Iona Edwards-Jones, Hywel Davies, Iwan Jones, Barri Evans, Stan Williams a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Ionawr 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd e-byst rhwng y Cyngor Cymuned a Mr Peter Thomas, Swyddog Cludiant Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn at safle bws yn Saron. Nid mae'r Cyngor Sir am ail lleoli'r safle bws nac am roi lloches bws newydd yn Saron oherwydd y gost ac nad oes yna ddigon o bobl/plant yn defnyddio'r safle bws. Penderfynwyd yr aelodau i drafod ymhellach yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mae'r Adran wedi gofyn i BT ail osod y cebl ar y ffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion.
2. Mae'r arwydd ffordd ar ffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion wedi ei ail osod erbyn hyn.
3. Mae'r tyllau ar y ffordd rhwng Capel Saron a Bryn Glas, Saron wedi ei thrwsio.
4. Mi fydd ffordd Drws-y-Buddel, Saron yn cael ei thrwsio yn y dyfodol agos.
5. Mi fydd y pafin ym Mhentref Llanrhaeadr yn cael gwelliant yn y dyfodol agos.
6. Mae'r Adran wedi gofyn i BT thrwsio'r cyfer ar y pafin ym Mhentref Llanrhaeadr.
7. Mi fydd yna arwydd newydd wrth groesffordd Bryn Glas, Saron yn y dyfodol agos.
8. Mi fydd yr Adran yn tocio'r llwybr cyhoeddus wrth Gapel Saron yn y dyfodol agos.
9. Mae'r ffordd rhwng Fron, Prion at Gapel Saron wedi ei thrwsio erbyn hyn.
10. Mi fydd y llinell wen ar y A525 wrth Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr yn cael ei ail pheintio yn y dyfodol agos.

C. Derbyniwyd hysbysiad oddi wrth Mr Steve Hodder, Swyddog Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych o'r hysbysiad i ymddangos yn yr "Denbighshire Free Press" ynglyn ar orchymyn i gwtogi'r cyflymdra traffic trwy Bentref Llanrhaeadr i 30 filltir yr awr. Penderfynwyd yr aelodau i gefnogi'r gorchymyn yn yr hysbysiad.

D. Mae'r Cadeirydd yn disgwyl prisiau am ail wneud y wal Gof Golofn yn Llanrhaeadr.

E. Derbyniwyd ymateb gan "War Memorial Trust" nad ydynt yn caniatáu'r un enwau ar fwy nac un Gof Golofn.

F. Mae'r "Planning Inspectorate" wedi cadarnhau trwy e-bost sylwadau'r Cyngor Cymuned ynglŷn ar geisiadau cynllunio diweddar y Ffermydd Wynt yn yr ardal.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £17,955.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod y Cyngor - £35.00.

2. Tal Aelodaeth 2015/16 Un Llais Cymru - £124.00.

C. Penderfynwyd yr aelodau am y rhoddion blyneddol 2014/15 at y mudiadau lleol canlynol sydd wedi gofyn am gefnogaeth arian:-

1. Eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr tuag at gynnal mynwentydd - £350.00.

2. Eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr tuag at drwsio'r Cloc - £200.00.

3. Capel Saron - £175.00.

4. Cart-y-Plwyf - £300.00.

5. Ysgol Pant Pastynog, Prion - £400.00.

6. Cylch Meithrin Prion - £200.00.

7. Cymdeithas Maes-y-Plwm - £150.00.

8. Cylch Meithrin, Llanrhaeadr - £300.00.

9. Clwb Ti a Fi, Llanrhaeadr - £100.00.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid derbyniwyd unrhyw gais am sylwadau'r Cyngor.

6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Grŵp Cynefin (Cymdeithas Tai Clwyd gynt yn Ninbych) sydd ar fin gwneud arolwg tai yn Rhewl a gofynni'r am gynnwys Cymuned Llanrhaeadr yn yr arolwg am anghenion tai lleol yn Rhewl. Penderfynwyd yr aelodau i gytuno i'r arolwg i'r gymuned leol.

B. Derbyniwyd e-bost oddi wrth yr "Llanrhaeadr YC Preservation Society" yb gofyn am lythyr gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned Llanrhaeadr YC i'r prosiect y Ffynnon. Penderfynwyd yr aelodau am y llythyr o gefnogaeth.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych bod y ffyrdd canlynol eisiau eu trwsio:-

A. Pen-y-Groes at Dŷ Isaf ym Mhrion.

B. Graig Lwyd at Llewesog Lodge ym Mhrion.

C. Ffordd Fawr ym Mhrion.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 30ain o Fawrth 2015 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.